

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Lydstep/Penalun

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 6.4 milltir (10.3 km) 3 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth pentref Lydstep 349, 360, parc gwyliau, Bws gwasanaeth Penalun 349, 360

CYMERIAD: Ymylon clogwyni, graddfa gymedrol, caeau a da byw, 600 m (650 llath) o gerdded ar isffyrdd, 100 m (110 llath) o gerdded ar briffordd

MWY O WYBODAETH: 2 fan croesi ar briffordd a chroesi rheilffordd sy'n cael ei defnyddio

CHWILIWCH AM: Ogofau clogwyni • golygfeydd o'r arfordir • cwm afon • clogwyni carreg galch • pentrefi prydfferth St Florence a Phenalun • golygfeydd tua'r tir • golygfeydd o Ynys Bŷr

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffordd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- Llwyr Cylch
- Llwyr Arfordir Sir Benfro
- Llwyr Cenedlaethol
- Llwbrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileddau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws
- RS Gorsaf Rheilffordd



Lydstep/Penalun

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 3 awr 30 munud

Length: 6.4 milltir (10.3 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth pentref Lydstep 349, 360, parc gwyliau, Bws gwasanaeth Penalun 349, 360.

Cyfeirnod map: SS098988

cerdded y ffordd yma at eu gwaith ac yna adref eto".

Mwy o wybodaeth: 2 fan croesi ar briffordd a chroesi rheilffordd sy'n cael ei defnyddio.

Mae hanes Penalun yn mynd yn ôl i'r Oes Cerrig. Bryd hynny, anheddwyr cynharaf Sir Benfro oedd yr helwyr-gasglwyr a oedd yn byw yn ogof Hoyle's Mouth, ychydig uwchben y Rhydeg nid nepell o'r llwybr. Credir bod rhywrai'n byw yn yr ogof tua 25,000 o flynyddoedd yn ôl, yn ystod yr Oes Iâ diwethaf.

Defnyddiwyd yr ogof fel cysgodfa am sawl mil o flynyddoedd, ac mae wedi cyflwyno pob math o arteffactau a oedd yn eiddo i'r helwyr-gasglwyr a oedd yn byw ynddi, gan gynnwys llafnau fflint a chrafwyr, ac esgyrn mamoth, udfil, arth a charw. Gellir gweld rhai o'r pethau y daethpwyd o hyd iddynt yn Amgueddfa Dinbych-y-pysgod.

Yn Lydstep, mae band llydan Sir Benfro o Garreg Galch Carbonifferaidd yn cwrdd â'r môr, gan greu rhai o graigluniau gorau'r sir. Ar un adeg, roedd smyglwyr yn storio'u contraband yn un o'r ogofau niferus yn yr ardal ac roedden nhw'n arfer chwarelu craig carreg galch o Bwynt Lydstep

Mae Tîm Jones, Parcmon Sector y De gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn dweud: "Mae rhannau o'r llwybr hwn yn dilyn llwybr hir sefydlog iawn. Hyd nes i'r chwarel yn Lydstep gau yn rhan olaf y 19eg ganrif, roedd y chwarelwyr yn arfer